Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru
North Wales Choral Festival

Newyddion yr Ŵyl

Rhifyn 3 - Tachwedd 2008

Daeth 14 o gorau i Landudno'r penwythnos diwethaf ar gyfer 21ain Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru. Cynhesodd yr ŵyl i fyny ar nos Wener gyda chyngerdd gan Ysgol Uwchradd Loreto o Sir Corc, Iwerddon yng Ngwesty'r St George's. Ymunodd corau eraill o Brydain ac Iwerddon gyda nhw yn y Gystadleuaeth ar ddydd Sadwrn, gan gystadlu mewn 4 dosbarth: Ieuenctid, Cymysg, Merched a Chorau Meibion. Roedd pob côr yn cannu 2 gân yr un i banel o feirniaid, a oedd yn dewis enillydd o bob dosbarth i gystadlu yng Nghyngerdd yr Enillwyr gyda'r nos.

Y dosbarth cyntaf i wynebu'r beirniaid oedd y corau ieuenctid, a oedd yn cynnwys Côr Ieuenctid Môn; Ysgol Uwchradd Loreto, Iwerddon; Ensemble Lleisiol Lyndon, Bae Colwyn a'u cyd-fyfyrwyr hŷn Rydal Penrhos. Rhoddodd y beirniaid ganmoliaeth i'r holl gorau am eu perfformiadau didwyll, ond cafodd Côr Ieuenctid Môn eu henwi yn enillwyr y dosbarth.

Enillwyr Dosbarth Ieuenctid - Côr Ieuenctid Môn

Yr ail ddosbarth i gystadlu oedd y corau Cymysg, a oedd yn cynnwys Cantorion Cahirmee o'r Iwerddon; Cantorion Rhos, Wrecsam; Côr Liffey, Iwerddon a Chôr y Gleision o Gaerdydd a enillodd y dosbarth y llynedd. Unwaith eto, roedd safon y corau'n eithriadol o uchel, fodd bynnag, dewiswyd côr arall o Ogledd Cymru: Cantorion Rhos i fynd ymlaen i'r cyngerdd gyda'r nos.

Enillwyr Dosbarth Cymysg - Cantorion Rhos

Ar ôl cinio, tro'r corau Merched oedd hi, gan gynnwys: Côr Merched Bro Nest, De Cymru; Cantorion Glenalua, Iwerddon a chôr Merched Sonata, Iwerddon. Perfformiodd pob côr yn wych, gyda Chôr Merched Bro Nest yn cael eu dewis fel enillwyr y dosbarth.

Enillwyr Dosbarth Merched - Côr Merched Bro Nest

Grŵp olaf y dydd oedd dosbarth y Corau Meibion a dyma gystadleuaeth agosaf y dydd gyda Chôr Meibion Betws-yn-Rhos, Côr Dynion Kidderminster a Chôr Meibion Clwb Golff Sir Sligo yn cystadlu yn erbyn ei gilydd.

Llwyddodd pob côr i gynnig rhywbeth gwahanol i'r dosbarth hwn, gyda'r perfformiadau yn amrywio o drefniadau Cymreig traddodiadol i 'sea shanties' a hyd yn oed perfformiad o'r Bohemian Rhapsody gan Queen i ddiddanu'r gynulleidfa ymhellach. Gallai unrhyw un ohonynt fod wedi ennill yr adran ar achlysur arall, ond roedd rhaid gwneud penderfyniad, a Chôr Meibion Clwb Golff Sir Sligo fyddai'n chwifio'r faner i'r Iwerddon yn y cyngerdd gyda'r nos.

Daeth pob un o'r corau buddugol yn ôl yn llawn egni ar nos Sadwrn. Roedd gan bob côr 15 munud i ganu o flaen y beirniaid cyn i'r Cynghorydd Glyn Jones, Cadeirydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, gyflwyno tlysau i bob enillydd.

Rhoddodd pob un o'r corau gefnogaeth i'w gilydd drwy gydol yr ŵyl, a gafodd ei gynnal gydag ysbryd ardderchog. Er hynny, roedd rhaid cael enillydd, ac ar ôl llawer o drafod, dewisodd y beirniaid Gôr Meibion Clwb Golff Sir Sligo yn Enillwyr Cyffredinol Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru 2008. Roeddent wrth eu boddau gyda'u buddugoliaeth, yn yr un modd â'r gynulleidfa a oedd bron â bloeddio'r to i ffwrdd wrth glywed y cyhoeddiad!

Enillwyr Cyffredinol - Côr Meibion Clwb Golff Sir Sligo

Mae'r ŵyl yn dal i dyfu ac ni fyddai'n gallu digwydd heb gefnogaeth y noddwyr: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Stena Line, North Wales Pioneer, Pianos Cymru, Design 2 Print a Gwesty'r St George's. Mae croeso bob amser i gael mwy o noddwyr i helpu'r ŵyl i ddatblygu ymhellach a gosod ei hun yn bendant ar y Calendr Corawl Rhyngwladol.

Bydd gŵyl y flwyddyn nesaf ar ddydd Sadwrn 7 Tachwedd, 2009 a bydd cyngherddau eraill yn cael eu cynnal drwy'r dref hefyd. Mae croeso i unrhyw gôr gymryd rhan. Am rhagor o wybodaeth, ffoniwch Alun Pritchard ar 01492 575948 neu ewch i www.northwaleschoralfestival.co.uk

Gyda diolch i'n noddwyr:

Conwy County Borough Council · Stena Line Making good time · pianos cymru · design2print Everything from design to print.. · St George's Hotel · North Wales Pioneer